# E-sgwteri

**Ar hyn o bryd, mae reidio e-sgwter ar ffordd gyhoeddus neu balmant yn erbyn y gyfraith.**



**Deallwn y gall fod yn demtasiwn prynu e-sgwter, yn enwedig gan eich bod chi'n medru eu prynu wrth sawl masnachwr poblogaidd.**

## Fodd bynnag, mae'r gyfraith bresennol yn glir.

Gallwch brynu un, ond ni allwch ei reidio ar ffordd gyhoeddus, lôn feicio neu balmant yn y DU. Dim ond ar dir preifat y cewch ddefnyddio e-sgwter.

## Pam hynny?

Mae e-sgwteri'n cael eu hystyried yn Gerbydau Trydan Ysgafn Personol, felly maen nhw'n cael eu trin fel cerbydau modur ac yn ddarostyngedig i'r un gofynion cyfreithiol.

Mae'r holl fanylion ar y wefan ganlynol:
https://www.gov.uk/government/publications/powered-transporters/information-sheet-guidance-on-powered-transporters

## Beth sy'n digwydd os yw'r Heddlu'n fy stopio?

Bydd yr Heddlu'n eich cynghori am y gyfraith gyfredol ynglŷn â sut i ddefnyddio e-sgwter yn gyfreithlon ac yn gofyn ichi fynd â'ch e-sgwter adref. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddant dal yn eich cosbi, gan ddibynnu ar natur a difrifoldeb y drosedd.

Deallwn y gefnogaeth gyhoeddus ar gyfer dulliau teithio amgylcheddol garedig, ond yr ydym eisiau gweithio gyda'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod y ffyrdd yn ddiogel i bawb.


Ar-lein yn: bit.ly/HDP101ArLein
E-bost: 101@dyfed-powys.pnn.police.uk
Galw: 101
Os ydych chi'n fyddar, yn drwm eich clyw, neu â nam ar eich lleferydd, gallwch anfon neges destun at y rhif di-argyfwng 07811 311 908.